

# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Ty Awelog, Waunfawr, CAERNARFON, Gwynedd. LL55 4AZ.  
Clerc: Shoned Rees Griffith ☎ 01286 650136 ✉ griffith.tyawelog@btinternet.com

4 Mawrth 2016

Yr Arolygaeth Gynllunio  
3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol  
BS1 6PN

**Eich Cyf: EN010072**

Annwyl Syr/Madam

**Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio 2010)**

**Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Ltd ar gyfer Gorchymyn yn Rhoi Caniatad Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy.**

**Hysbysiad o Gyfarfod Rhagarweiniol ar 8 Mawrth 2016, amserlen archwilio draft a materion eraill.**

Ymhellach i dderbyn gohebiaeth ganddoch dyddiedig 9 Chwefror 2016 ynglyn a'r mater uchod, bu i Gyngor Cymuned Waunfawr drefnu cyfarfod arbennig ar yr 2il o Fawrth i drafod y mater ymhellach.

Fel rwyf eisoes wedi esbonio yn yr e-bost rydym wedi ei anfon atoch ar y 3ydd o Fawrth nid ydym yn sicr o sefyllfa y Cyngor Cymuned o ran ein statws ffurfiol, gan i chwi nodi yn y llythyr fod ganddom statws ffurfiol o dan y PA2008 fel 'parti a buddiant' yn y broses archwilio gan ein bod wedi gwneud 'sylw perthnasol' ynglyn a'r cais yn y gorffennol, ond rydym wedi derbyn e-bost gan y Cwmni Snowdonia Pumped Hydro yn cadarnhau nad oes ganddom statws ffurfiol gan na fu i ni gofrestru cyn y 15fed o Ionawr 2016.

Yn sgil hyn rydym yn amlinellu isod beth yw pryderon a sylwadau y Cyngor Cymuned ynglyn a'r datblygiad uchod, a gobeithio y bydd rhain yn cael eu cymrud i ystyriaeth yn ystod y broses.

1. Y ffordd i'r safle o bentref Waunfawr- ffordd gul iawn, ddim yn addas ar gyfer loriau a chroesffordd beryglus iawn i groesi'r ffordd i'r safle.
2. Lefel y traffic ychwanegol fydd ar hyd y ffordd anaddas yma, a' reffaith ar drigolion lleol.
3. Defnyddi'r rhan o'r ffordd gan blant sy'n mynd i'r ysgol, a bws yr ysgol uwchradd, bydd rhaid gofalu bod dim loriau yn trafaelio i'r safle yn ystod yr amser a'r amser pan fydd y plant yn dod adref.
4. Eiddo sydd wedi ei leoli ar ochr y ffordd i'r safle, mae rhan fwyaf o'r tai yn fythynod traddodiadol a gall effaith yr holl loriau trwm yn mynd heibio'r tai eu difrodi.
5. Llwybrau cyhoeddus yn cael eu hail-gyfeirio a'u cau – effaith ar drigolion lleol sy'n cerddad y

llwybrau.

6. Ansawdd y dwr o'r gorlif i Nant y Betws ac yna i'r Afon Gwyrfa. Nodwyd fod rhai trigolion y pentref yn defnyddio'r dwr yma ar gyfer ei yfed, a beth fydd effaith hyn ar fywyd gwyllt yn yr Afon Gwyrfa?
7. Pam bod angen defnyddio cymaint o dir?
8. Gwriad i'r ffordd werdd, a dargyfeirio y ffordd i'r Maes Parcio newydd, mae'r ffordd yma yn darparu ar hyn o bryd a fydd y ffordd newydd cystal?
9. Effaith i'r olygfa o ben Moel Eilio a mynyddoedd eraill o'n cwmpas sy'n bwysig iawn i bobl sy'n ymweld a'r ardal, ac yn ei werthfawrogi fel ac y mae.
10. Roedd teimladau y Cynghorwyr yn gryf iawn bod y ffordd i'r safle yma, ac yn wir y safle yn ran bwysig iawn o bentref Waunfawr. Mae'r ffordd sy'n arwain at y safle yn ran o gylch cerdded o amgylch y pentref sy'n bwysig iawn o ran cymdeithasu yn lleol a cwrdd a thrigolion pan yn mynd am dro. Y safle yng Nghefn Du, mae nifer o drigolion yn hoff iawn o fynd yma am dro gan ei fod yn le diogel a dim traffic. Yn ystod tymor y Gaeaf pan fydd eira bydd teuluoedd a phlant yr ardal yn tyru yma, ac wedi gwneud hyn ers blyneddau. Bydd y datblygiad yma yn cael effaith ar lechyd a Lles corfforol a meddyliol y trigolion.
11. Rydym eisoes wedi nodi ein pryderon o ran y traffic ychwanegol i'r safle, ond rhaid cofio y bydd y traffic yma yn dod i'r pentref ar hyd y ffordd fawr drwy Caeathro neu o Bontrug? Rydym eisoes wedi mynegi ein pryderon i Gyngor Gwynedd ynglyn a cyflwr y ffordd fawr yma yn enwedig o gylchfan Gaeathro i fyny i Bentref Waunfawr – rhan o'r A4087. Bydd yr holl loriau yma yn draffig trwm ychwanegol i'r traffic dyddiol, ac yn bwysau ychwanegol a'r y ffordd. Oes angen cytundeb bod y ffordd yn cael ei chynnal a chadw a'i chadw mewn cyflwr boddhaol yn ystod y datblygiad?
12. Credwn yn GRYF y dylai arolwg o'r ffordd a'r eiddo ar hyd y ffordd i'r safle o fewn ffin y Cyngor Cymuned gael ei wneud CYN cychwyn ar y gwaith a bod cytundeb yn ei le bod unrhyw ddifrod yn cael ei gywiro gan y cwmni.

Rydym yn wir obeithio y bydd y pryderon a'r sylwadau uchod yn cael eu cymryd i ystyriaeth ac y byddwn yn cael y cyfle i fynegi rhain yn bersonol yn y cyfarfod ar yr 8fed o Fawrth.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir

Shoned Rees Griffith  
Clerc Cyngor Cymuned Waunfawr

c.c. Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli